

Gwneud nyth aderyn

Bydd hyn wir yn gwneud i blant feddwl am ba mor galed mae adar yn gweithio i greu nyth berffaith ar gyfer eu wyau! Gellid dilyn y gêm gydag edrych ar wahanol rywogaethau o adar y DU ar y rhynggrwyd a sut mae eu nyth yn edrych. Mae gwefan yr Ymddiriedolaethau Natur yn lle gwych i ddechrau!

Amser: Un i ddwy awr



#30DaysWild

Beth fydd arnoch ei angen

- Digon o frigau, glaswelltau, gwellt a deunydd nythu tebyg
- Ardal i greu eich nyth, dan do neu yn yr awyr agored



Beth i'w wneud



1. Gofynnwch i'ch dosbarth neu eich plant greu eu nyth eu hunain allan o'r deunydd. Dylai pob nyth ddal gwrthrych y cytunwyd arno ymlaen llaw, fel tri wy siocled bach wedi'u lapio mewn ffoil (neu rywbeth o bwysau tebyg).
2. Am her go iawn, gofynnwch i'r plant ddefnyddio dim ond eu mynegfys a'u bys canol ar un llaw i godi'r deunydd, i ddynwared pig!
3. Pan mae'r plant wedi gwneud nyth, gofynnwch iddynt edrych ar y rhynggrwyd am wahanol fathau o nythod sydd wedi'u creu gan adar yn y DU. Gallwch siarad am y gwahanol fathau o ddeunyddiau y mae gwahanol rywogaethau o adar yn eu defnyddio. A yw'r rhain yn un deunyddiau â'r rhai a ddefnyddiodd y plant i greu eu nyth?
4. Trafodwch elfennau cymhleth y nyth. Hefyd gallwch roi eich nyth ar brawf mewn coeden neu lwyn yn eich gardd i weld a yw'n ddigon cadarn. Cofiwch ei symud wedyn.
5. Datgymalwch y nyth a gadael y deunydd nythu y tu allan i adar ei ddefnyddio!



“

Mae cynllunio sut orau i drefnu a chasglu'r gwahanol ddeunyddiau'n ffordd ryfeddol i beirianwyr addawol feistroli datrys problemau adeiladu – ac mae'n helpu i gryfhau eu sgiliau motor manwl, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar.

”



**Philippa, athrawes
blynyddoedd cynnar, Ysgol
Gynradd Sant Michael,
Caint**

**Rhannwch eich lluniau o'r nyth
aderyn gyda ni ar gyfryngau
cymdeithasol gan ddefnyddio**

#30DaysWild

@WildlifeTrusts
 @wildlifetrusts
 @thewildlifetrusts

Fy A i Y o fyd natur



Bydd y gêm hwyliog yma'n helpu i wella sgiliau ysgrifennu a sillafu. Mae posib ei chwarae gyda phlant iau gyda mwy o help gan oedolyn drwy ysgrifennu pob gair wrth i chi feddwl amdanynt i'r plentyn eu hargopio.

Amser: Un i ddwy awr

#30DaysWild

Beth fydd arnoch ei angen

- Beiro
- Papur
- Ffôn clyfar neu gamera
- Canllawiau adnabod (dewisol)



Beth i'w wneud

1. Gofynnwch i'r plant ysgrifennu'r wyddor ar ddarn o bapur neu mewn llyfr nodiadau. Dylai pob llythyren yn yr wyddor fod ar linell newydd.
2. Ewch i'r ardd neu am dro i'ch ardal leol, gan fynd â beiro, papur a ffôn clyfar neu gamera gyda chi.
3. Gofynnwch i'r plant fod yn sylwgar: beth maen nhw'n ei weld, yn ei arogl ac yn ei glywed ym myd natur?
4. Ceisiwch lenwi'r wyddor gyda nhw gan ddefnyddio'r pethau maen nhw'n sylwi arnynt o'u cwmpas. Er enghraifft, A am Awyr, C am Cacynen a G am Gwynt.
5. Edrychwch o dan greigiau, yn uchel i fyny yng nghanhennau'r goeden neu yn y gwrychoedd i ddod o hyd i gymaint o rywogaethau ag y gallwch chi.
6. Os bydd y plant yn gweld unrhyw beth nad ydynt yn ei adnabod, cofiwch eu hannog i dynnu ei lun er mwyn i chi allu ei adnabod gartref.
7. Ewch yn ôl dan do a gweld faint o lythrennau'r wyddor ydych chi wedi llwyddo i'w cwblhau.
8. Edrychwch ar ganllawiau adnabod neu'r rhyngwrdd i geisio adnabod y pethau newydd welsoch chi.
9. Ar gyfer unrhyw lythrennau coll, meddyliwch gyda'ch gilydd am beth allai eu llenwi, a herio'r plant i ddefnyddio bywyd gwyllt y DU yn unig, nes bod pob un llythyren wedi'i chwblhau!



© Austin Morley

“

Mae dysgu egniol yn yr awyr agored yn meithrin datblygiad a hoffter oes o ddysgu. Fel y dywedwyd yn gwbl hyfryd gan Benjamin Franklin: "Tell me and I forget, teach me and I may remember, involve me and I will learn".



”
Paul, athro ysgol a thad newydd, Manceinion

Rhannwch eich lluniau o'ch teithiau bywyd gwyllt gyda ni ar gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio

#30DaysWild

@WildlifeTrusts
@wildlifetrusts
@thewildlifetrusts

Map synau naturiol



Mae hon nid yn unig yn ffordd grêt o gael plant i ymwneud â byd natur, ond hefyd mae'n eithriadol fyfyrïol ac yn gwneud i chi ymlacio'n llwyr! Mae'n well gwneud y gweithgaredd yma ar ddiwrnod tawel, heulog.

Amser: 30 munud

#30DaysWild

Beth fydd arnoch ei angen

- Yn ddelfrydol, gofod awyr agored i eistedd i lawr. Mae gardd yn berffaith! Fe allwch chi roi cynnig ar hyn wrth ymyl ffenest agored hefyd; dim ond dewis amser o'r dydd pan nad oes llawer o sŵn traffig

- Darn o bapur a beiro/pensil



Beth i'w wneud

1. Gofynnwch i'r plant eistedd yn yr ardd gyda darn o bapur a beiro/pensil a dywedwch wrthynt am roi marc yng nghanol papur (os ydyn nhw wrth ymyl ffenest, marcio eu hunain ar ymyl y papur). Mae'r marc yma'n cynrychioli ble roeddent yn eistedd.
2. Dywedwch wrth y plant am gau eu llygaid, bod yn dawel a gwrandao ar y synau naturiol o'u cwmpas.
3. Bob tro maent yn clywed sŵn, dylent agor eu llygaid a'i farcio ar y papur gyda rhywbeth sy'n cynrychioli'r sŵn a ble mae mewn perthynas â hwy h.y. aderyn ar dop eu papur i gynrychioli aderyn yn y pellter o'u blaen yn canu.
4. Pan maent yn meddwl eu bod wedi cofnodi'r holl synau maent yn gallu eu clywed, gallant roi eu beiro/pensil i lawr.
5. Beth wnaethon nhw ei glywed? Ble oedd y sŵn? Ydyn nhw'n gallu gweld beth oedd yn gwneud y sŵn? Efallai bod coeden lle oedd yr aderyn i'w glywed yn canu ohoni – gall hyn arwain at drafodaeth am gynefinoedd.
6. Os ydych chi'n defnyddio hon fel gwers ddigidol i

ddosbarth, gofynnwch i'r plant wedyn gymharu'r synau maent wedi'u clywed. A oeddent yn wahanol gan ddibynnu ar ble mae'r plant yn byw?



“

Rydw i wrth fy modd gyda dysgu awyr agored. Mae'n datblygu annibyniaeth a chwilfrydedd y plant drwy archwilio ac ymchwilio, yn annog gweithgarwch corfforol ac yn hybu cariad at fyd natur. Mae'r rhain i gyd yn cael effaith bositif ar iechyd meddwl plant.

”



Rob, Athro Blwyddyn 4 a thad i ddau, Sir Caer

Rhannwch eich lluniau o'ch map synau naturiol gyda ni ar gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio

#30DaysWild

@WildlifeTrusts
 @wildlifetrusts
 @thewildlifetrusts

Ras am Enfys



Gellir cynnal ras am enfys yn yr ardd neu wrth fynd am dro yn eich ardal leol. Mae'n helpu i annog meddwl yn feirniadol a gellir ei addasu i blant iau sydd wrthi'n dysgu eu lliwiau, a hefyd i blant hŷn sy'n hoffi iawn o gystadleuaeth!

Amser: Un awr

#30DaysWild



Beth fydd arnoch ei angen

- Ffôn clyfar neu gamera i dynnu lluniau
- Darn o bapur
- Pinnau ffelt neu bensiliau lliw

Beth i'w wneud

1. Ar ddarn o bapur, marciwch wahanol liwiau'r enfys ar fwrdd. Dyma sut bydd y plant yn tracio'r lliwiau maent yn dod o hyd iddynt.
2. Anfonwch y plant i'r ardd gyda ffôn clyfar neu gamera a dweud wrthynt am ddod o hyd i rywbeth o fyd natur sydd yr un lliw â lliw cyntaf yr enfys ar y darn o bapur.
3. Dylent naill ai dynnu llun i'w ddangos i chi neu ddod â'r eitem yn ôl atoch chi (dim ond os nad yw'r gwrthrych yn sownd yn y llawr neu'n fyw ddylech chi annog hyn).
4. Os yw'r eitem yn rhywbeth corfforol, fel deilen neu frigyn, rhwch yr eitem ar y bwrdd enfys nesaf at ei liw. Os yw'n llun, ysgrifennwch ei enw gan ddefnyddio pin

ffelt o'r lliw cywir.

5. Ailadroddwch y dasg ar gyfer holl liwiau'r enfys! Os cewch anhawster, gwnewch nodyn o'r lliwiau coll a chwilio ar y rhynggrwyd yn nes ymlaen, gyda'ch gilydd, am rywogaethau'r DU sy'n cynrychioli'r lliw hwnnw. Er enghraifft, os yw'r glas ar goll (er byddai llun o'r awyr yn gweithio!), chwiliwch am lun o ditw tomos las ar-lein.
6. Os oes gennych chi beiriant argraffu, gallech argraffu'r lluniau a dynnodd y plant a'u glynu ar eich bwrdd enfys i'w gwblhau.



“

Ar gyfer plant iau, ceisiwch wneud y gweithgaredd yma gyda nhw, fel teulu. Defnyddiwch y gweithgaredd i'w dysgu am y gwahanol liwiau. Gallwch ei addasu i gynnwys cymaint neu gyn lleied o liwiau ag y dymunwch chi!



”

**Leanne. o'r
Ymddiriedolaethau Natur**

**Rhannwch eich bwrdd enfys gyda
ni ar gyfryngau cymdeithasol gan
ddefnyddio**

#30DaysWild

- @WildlifeTrusts
- @wildlifetrusts
- @thewildlifetrusts

Astudio trychfil



Cyfle i ddysgu am y bywyd gwyllt yn eich ardal leol ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arwyr trychfilod! Gellid dilyn y gweithgaredd yma drwy feddwl am sut gallwch chi weithredu er lles pryfed yn eich ardal a helpu'r trychfilod y dewch chi o hyd iddynt. **Byddwch yn ofalus iawn bob amser gyda thrychfilod – maen nhw'n fach iawn yn aml!**

Amser: Un i dair awr

#30DaysWild



Beth fydd arnoch ei angen

- Beth fydd arnoch ei angen
- Brwsh paent bach
- Ffôn clyfar neu gamera
- Beiro a phapur
- Mynediad i'r rhyngwrwyd neu ganllaw adnabod pryfed
- Pren neu dâp mesur
- Chwydd-wydr

Beth i'w wneud

1. Ewch i'r ardd neu i'r ardal leol a mynd ar helpa trychfilod. Edrychwch o dan y cerrig, ar ffensys ac ar ddail!
2. Gofynnwch i'r plant ddal trychfil yn y pot pryfed, gan ddefnyddio'r brwsh paent i helpu (neu fe allwch chi dynnu lluniau sy'n gwneud adnabod yn bosib!).
3. Astudiwch y trychfil a gwneud nodyn o'r pethau canlynol:
 - a. Beth yw ei liw?
 - b. Ydi ei gorff yn galed neu'n feddal?
 - c. Faint o goesau sydd ganddo, os o gwbl?
 - d. Pa mor fawr yw'r trychfil?
 - e. Oes ganddo adenydd? Faint?
 - f. Ble cawsoch chi hyd iddo?
 - g. Sut mae'n symud?
 - h. A yw'n bwyta unrhyw beth?
4. Ceisiwch adnabod y creadur ar-lein neu gan ddefnyddio

canllaw adnabod.

5. Rhowch y trychfil yn ôl ble cawsoch hyd iddo.
6. Ewch ati i annog y plant i greu taflen ffeithiau am y trychfil o'u dewis, gan gynnwys tynnu ei lun.
7. Gallech ymestyn y gweithgaredd ymhellach drwy ofyn iddynt greu eu pryf eu hunain, gan ddefnyddio'r cwestiynau uchod.



© Chris Lawrence

“

Gallech roi cynnig ar fersiwn wedi'i addasu o'r gweithgaredd gyda chân adar! Chwiliwch am adar yn eich gardd neu eich ardal leol. Os gallwch chi, gwrandewch ar eu cân ac annog y plant i geisio disgrifio sut mae'r adar yn swnio ar eu taflen ffeithiau

”



Abbie, o'r Ymddiriedolaethau Natur

Rhannwch eich lluniau o'r trychfilod y dewch o hyd iddynt gyda ni ar gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio

#30DaysWild

- @WildlifeTrusts
- @wildlifetrusts
- @thewildlifetrusts

Cynllunio eich aderyn eich hun



Beth am fod yn athro celf ac annog creadigrwydd gwyllt gyda'r dasg yma. Cewch eich synnu at ddychymyg byw plant! Gallwch wneud y gweithgaredd yma gyda phlant neu adael iddynt roi cynnig arno ar eu pen eu hunain.

Amser: Un awr



Beth i'w wneud

#30DaysWild

Beth fydd arnoch ei angen

- Papur
- Pinnau ffelt a phensiliau lliw



mawr hwyaden wyllt!

1. Gofynnwch i'r plant feddwl am eu hoff adar a beth maent yn ei hoffi amdanynt. Os nad ydynt yn siŵr, gallech dreulio rhywfaint o amser cyn y gweithgaredd yma'n edrych ar wahanol adar yn y DU gyda'ch gilydd. [Gall ein gwefan ni helpu gyda hyn.](#)
2. Ewch ati i greu rhywogaeth newydd o aderyn gyda nodweddion yr hoff adar yma, er enghraifft, gyda bron goch robin goch, pig hir glas y dorlan, a thraed gweog
3. Rhowch enw i'r aderyn a chreu ffeil ffeithiau fer amdano – meddyliwch am y canlynol:
 - a. Ble mae'r aderyn yn byw? Ydi'r aderyn yn byw yn y wlad yma drwy gydol y flwyddyn? Yn yr hydref, mae gwenoliaid y DU yn teithio'n ôl i Affrica i dreulio misoedd oeraf y gaeaf yno!
 - b. Pa fath o gynefin mae'r aderyn yma'n hoffi fel cartref?
 - c. Beth mae'n ei fwyta? Oes ganddo unrhyw nodweddion arbennig, fel pig mawr iawn, sy'n ei helpu i'w fwyta?
 - d. Ydi'r aderyn yn gallu hedfan? Sut mae'n symud hyd y lle?
 - e. Oes unrhyw beth yn bwyta'r aderyn yma – neu a yw ar dop y gadwyn fwyd?



“

Gall y gweithgaredd yma annog naturiaethwyr y dyfodol i ddianc oddi wrth eu sgriniau a gellir ei ymestyn i ysgrifennu darn disgrifiadol sy'n dod â'r aderyn newydd yn fyw! Bydd ystyried addasiadau'r greadigaeth yn helpu gydag ymchwiliadau a dealltwriaeth wyddonol bellach.

”



Stephen, Athro
Blynyddoedd 5 a 6 o Leeds

Rhannwch eich lluniau o'ch aderyn gyda ni ar gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio

#30DaysWild

- @WildlifeTrusts
- @wildlifetrusts
- @thewildlifetrusts